Rhif: **WG19018**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

## Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Ymgynghoriad ar wahardd saethu Gwyddau Talcen-wyn yng Nghymru

Gorffennaf 2013

ISBN digidol 978 0 7504 9599 8
© Hawlfraint y Goron 2013
WG19018

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | **2** |
| **Pwrpas yr Ymgynghoriad** | **3** |
| **Cyfnod a dosbarthiad yr ymgynghoriad** | **3** |
| **Ymatebion** | **4** |
| **Y camau nesaf** | **16** |
| **Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr** | **17** |

**Trosolwg**

Ceir dau fath o Ŵydd Dalcenwyn yn y Deyrnas Unedig: Y math o dras Ewrasiaidd (neu Ewropeaidd) a'r math o dras yr Ynys Las. Mae statws poblogaethau byd-eang y ddwy dras yn wahanol iawn. Mae Gwyddau Talcenwyn Ewrasiaidd yn fwy niferus o lawer ond cyfrifir bod poblogaeth fyd-eang Gwyddau Talcenwyn yr Ynys Las "Mewn Perygl".

Mae'r Deyrnas Unedig yn lle pwysig i Wyddau Talcenwyn yr Ynys Las. Amcangyfrifir bod tua hanner poblogaeth y byd yn byw yma yn y gaeaf. Er mai dim ond ychydig o Wyddau Talcenwyn yr Ynys Las sy'n bwrw'r gaeaf yng Nghymru'n rheolaidd, mae'r rhai sydd yn gaeafu yng Nghymru yn hanfodol er mwyn cynnal ehangder dosbarthiad y boblogaeth ym Mhrydain (ac yn rhyngwladol). Eisoes, collwyd nifer o safleoedd yng Nghymru lle bu'r gwyddau hyn yn gaeafu yn y gorffennol. Os na chymerir y camau priodol i sicrhau bod cyn lleied ag y bo modd o Wyddau Talcenwyn yr Ynys Las yn eu llawn dwf yn marw, e.e. trwy wahardd hela, gellid gweld hynny fel methiant bwriadol i gyflawni'n dyletswyddau cadwriaethol gartref ac yn rhyngwladol.

Mae Gwyddau Talcenwyn wedi'u rhestru yn Atodiad II, Rhan B o Gyfarwyddeb Adar 2009/147/EC sy'n golygu y gellir awdurdodi eu hela, yn y Deyrnas Unedig, o dan erthygl 7(3) o'r Gyfarwyddeb. Mae'r rhan hon o'r Gyfarwyddeb wedi ei throsi'n gyfraith ddomestig o dan adran 2, a Rhan 1 o Atodlen 2, Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Mae hyn yn golygu y caniateir lladd neu ddal Gwyddau Talcenwyn y tu allan i'r 'Tymor Caeedig' yng Nghymru a Lloegr. Y tymor caeedig yw'r cyfnod rhwng 1 Chwefror a 31 Awst bob blwyddyn neu, mewn perthynas â hwyaid gwylltion a gwyddau gwylltion, mewn unrhyw ardal neu dros unrhyw ardal sydd islaw marc penllanw ar orllanw arferol, rhwng 21 Chwefror a 31 Awst.

Mae'r cynnig hwn yn cydnabod ei bod yn anodd gwahaniaethu rhwng y ddau fath allan yn y maes ac mae'n adlewyrchu deddfwriaeth gyfredol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon lle mae Gwyddau Talcenwyn yn cael eu gwarchod yn llwyr trwy'r amser gan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y newidiwyd hi) a gan Orchymyn Bywyd Gwyllt (Gogledd Iwerddon) 1985.

| | |
|---|---|
| **Pwrpas yr ymgynghoriad** | Pwrpas yr ymgynghoriad oedd ceisio barn am gynnig i gyflwyno gwaharddiad statudol ar saethu Gwyddau Talcenwyn yng Nghymru trwy gydol y flwyddyn (yn cynnwys yn y 'tymor agored'). Byddai'r gwaharddiad statudol yn dod i rym ar 01 Medi 2013. |
| **Cyfnod a dosbarthiad yr ymgynghoriad** | Cynhaliwyd yr ymgynghoriad am gyfnod o ddeng wythnos yn dechrau ar 11 Chwefror 2013 ac yn cau ar 19 Ebrill 2013. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru ac fe'i hanfonwyd yn uniongyrchol at nifer o gyrff saethu a chadwraeth perthnasol. |

## Ymatebion

Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad. Daeth ymatebion i lawr dros y cyfnod ymgynghori cyfan, rhwng 11 Chwefror 2013 a 19 Ebrill 2013 yn cynnwys y dyddiadau hynny. Er bod un ymateb wedi cyrraedd yn hwyr (25 Ebrill 2013), cafodd ei gynnwys yn y dadansoddiad am ei fod wedi'i anfon mewn pryd ond i'r cyfeiriad anghywir. Daeth dros hanner yr ymatebion h.y. y mwyafrif (56%; 73) mewn cyfnod o un wythnos, rhwng 15 a 19 Ebrill, sef yn ystod wythnos olaf y cyfnod ymgynghori.

Daeth cyfanswm o 130 o ymatebion i law yn ystod y cyfnod ymgynghori. O gynnwys yr holl ymatebion yn y dadansoddiad, roedd 34% (44) o blaid cyflwyno gwaharddiad statudol ond nid oedd y mwyafrif, 66% (86) o blaid cyflwyno gwaharddiad statudol.

Fodd bynnag, os cyfyngir y dadansoddiad i'r ymatebwyr a atebodd dri chwestiwn yr ymgynghoriad yn uniongyrchol (dim ond 29 o'r 130), roedd 72% (21) o blaid gwaharddiad a 28% (8) yn erbyn gwaharddiad.  Mae Tabl 1 yn dangos faint o ymatebwyr oedd yn y gwahanol sectorau.

**Tabl 1. Yr ymatebion a gafwyd wedi'u rhannu yn ôl sector a'u rhoi yn nhrefn nifer.**

| Sector | Nifer yr Ymatebion | Canran yr ymatebwyr |
|---|---|---|
| Unigolion preifat a nodwyd fel 'hunan' | 102 | 78.5 |
| Clybiau, Cymdeithasau a Ffederasiynau Hela Adar Dŵr | 10 | 7.7 |
| Cyrff Anllywodraethol Gwarchod Natur, Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt, Grwpiau Adar a Chymdeithasau Adareg | 6 | 4.6 |
| Cymdeithasau saethu, e.e. BASC | 4 | 3.1 |
| Cyrff 'o blaid cefn gwlad' | 2 | 1.5 |
| Sefydliadau a chymdeithasau gwarchod anifeiliaid a lles anifeiliaid | 2 | 1.5 |
| Asiantaethau Gwarchod Natur Statudol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol | 2 | 1.5 |
| Amrywiol | 2 | 1.5 |
| **Cyfanswm** | **130** | **100** |

### Ymatebwyr yn ôl Rhyw

Ar sail enwau cyntaf a/neu deitlau'r ymatebwyr pan roddwyd nhw, roedd 88% (115) o'r ymatebwyr yn ddynion ac 8% (11) yn fenywod.  Mae'n bosibl bod llawer rhagor o ddynion nag o fenywod wedi ymateb i'r ymgynghoriad am mai dynion yn bennaf sy'n

cymryd rhan mewn hobïau neu weithgareddau hamdden fel saethu adar dŵr a saethu awyr agored.

Yn achos yr is-sampl o ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu cyflwyno gwaharddiad statudol, gan ddefnyddio'r un cafeatau o ran cyfran dynion/menywod (n=82), roedd cyfran y dynion hyd yn oed yn uwch, sef 98%.

Gan anwybyddu cysylltiadau â grwpiau a sefydliadau eraill, yn achos dynion yn unig roedd 69% o'r ymatebwyr yn erbyn y gwaharddiad a gynigir a 30% o'i blaid, ond yn achos menywod yn unig roedd y gwrthwyneb yn wir, gyda dim ond 18% yn erbyn y gwaharddiad a mwyafrif sylweddol o 82% o blaid gwaharddiad.

**Cymwysterau**

O'r naw ymatebydd oedd â'r teitl "Dr" neu gyfatebol, roedd 67% (6) o blaid cyflwyno gwaharddiad statudol a 33% (3) yn erbyn.

**Lleoliad Daearyddol yr Ymatebwyr**

Ni roddodd llawer o'r ymatebwyr eu lleoliad daearyddol (51%; 66) ac felly ni ellid dadansoddi eu lleoliad gan fod ymatebion a anfonwyd trwy'r ebost, neu o iPhones neu iPads, neu ddyfeisiau electronig tebyg, yn tueddu i gynnwys dim ond yr enw a'r cyfeiriad ebost ac, os oedd ar ran sefydliad, enw'r sefydliad, a dim manylion lleoliad na chyfeiriad post. Roedd modd dyfalu lleoliad rhai ymatebwyr o fanylion y busnes neu'r corff cyhoeddus oedd yn ymddangos yn y troednodyn ar waelod eu neges ebost.

Yn achos y rhai yr oedd eu lleoliad daearyddol yn hysbys (49%; 64), roedd y mwyafrif o Gymru (52%; 33). Yna, roedd (34%; 22) o Loegr ac (11%; 7) o'r Alban. Daeth dau ymateb o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig – y naill o Wlad Belg a'r llall o Ddenmarc ac roedd un o'r ymatebwyr hynny'n arfer byw yn nghanolbarth Cymru.

**Hyd yr Ymatebion**

Diffiniwyd pedwar categori o ymateb, yn ôl eu hyd, a'u seilio ar y meini prawf lled feintiol isod:

| | |
|---|---|
| **Cwta** | ymatebion sy'n cynnwys un llinell, ychydig linellau neu, ar y mwyaf, ddwy neu dair brawddeg. |
| **Byr** | ymatebion sy'n cynnwys ychydig baragraffau. |
| **Canolig** | ymatebion sylweddol, tua tudalen o hyd |
| **Hir** | ymatebion sylweddol a manwl, fel rheol dros dudalen o hyd ac, yn aml, gyda gwybodaeth ategol. |

Dyma'r cyfrannau ar gyfer hyd yr ymatebion –

Cwta – 56 (43%), Byr – 46 (36%), Canolig - 17 (13%), Hir – 10 (8%).

Dim ond 27 (21%) o ymatebion sylweddol h.y. rhai oedd naill ai'n 'ganolig' neu'n 'hir' a gafwyd. Roedd y rhan fwyaf naill ai'n 'gwta' neu'n 'fyr'.

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

**Cwestiwn 1. Ydych chi'n cytuno â'n casgliad ni bod angen rhagor o warchodaeth ar y boblogaeth o Wyddau Talcenwyn yr Ynys Las yng Nghymru?**

**Cwestiwn 2: Ydych chi'n cefnogi'r bwriad i wahardd saethu Gwyddau Talcenwyn yng Nghymru trwy gydol y flwyddyn?**

**Cwestiwn 3: A oes camau eraill, gwahanol, y gellid eu cymryd yn lle hynny i warchod poblogaeth Gwyddau Talcenwyn yr Ynys Las yng Nghymru gyda'r un eglurdeb a sicrwydd ag y nodir yng nghynnig Llywodraeth Cymru?**

## Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn tri chwestiwn gwahanol a phenodol. Fodd bynnag, ni chafwyd atebion uniongyrchol i'r tri chwestiwn hyn, sef y rhan allweddol o'r ymgynghoriad, gan fwyafrif mawr o'r ymatebwyr (78%; 101) ac, o'r rhai a roddodd atebion uniongyrchol, roedd nifer heb ddefnyddio ffurflen ymateb swyddogol yr ymgynghoriad.

Atebion cwta o frawddeg neu ddwy a gafwyd gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr. Gan amlaf, datganiad o safbwynt oedd y rhain, fel '*Rwy'n hollol wrthwynebus i saethu gwyddau talcenwyn*' neu '*Rwy'n cefnogi moratoriwm cyffredinol hyd nes i'r boblogaeth fyd-eang godi yn ôl'.* Roedd rhai brawddegau (neu rannau o frawddegau) yn codi'n aml iawn mewn ymatebion cwta gan ymatebwyr a oedd yn ymateb drostynt eu hunain a hynny'n awgrymu eu bod yn rhan o ymgyrch wedi'i threfnu, gan gymdeithasau yr oeddent yn aelodau ohonynt mae'n fwy na thebyg.

Dim ond 29 o'r ymatebion oedd yn ateb y tri chwestiwn yn daclus, yn eu trefn, yn unol â'r cais ac fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori ategol. Dim ond un o'r ymatebion hyn oedd yn perthyn i'r dosbarth 'cwta' ac roedd 97% ohonynt yn 'fyr' neu'n hirach, gyda 71% yn 'ganolig' neu'n 'hir'.

Dim ond tri llythyr mewn llawysgrifen a gafwyd; pob un ohonynt yn erbyn cyflwyno gwaharddiad statudol. Roedd yr ymatebion hwy yn tueddu i gyfleu consensws o safbwyntiau wedi'u cydgasglu a barn sefydliadau aelodau, rhai o blaid a rhai yn erbyn saethu ac, fel rheol, fe'u hanfonwyd gan gadeirydd neu gynrychiolydd y sefydliad neu'r gymdeithas.

**Materion yn codi ynghylch Dyraniad a Phriodoleddau'r rhai oedd yn perthyn i'r dosbarth 'Hunan'**

Roedd rhai o'r ymatebwyr oedd yn perthyn i'r dosbarth 'Hunan' yn dweud yn agored eu bod yn aelodau o wahanol grwpiau perthnasol e.e. cymdeithasau hela adar dŵr neu Gymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain (BASC), ac nid oedd bob amser yn hollol glir ai ymatebion personol oedd y rhain ynteu a oeddent yn ymateb ar ran y gymdeithas yr oeddent yn perthyn iddi.

O'r ymatebwyr oedd yn perthyn i'r dosbarth 'Hunan' ac yn dweud yn eu hymateb eu bod yn aelodau o ryw sefydliad, BASC oedd y sefydliad a enwyd amlaf. Yn ogystal, anfonodd rhai cymdeithasau saethu adar dŵr ymatebion ar wahân oddi wrth eu pwyllgorau ar ran eu haelodau.

Felly, o ystyried niferoedd syml yr ymatebion naill ai 'o blaid' neu 'yn erbyn' y cynnig, mae'n bosibl bod elfen o 'gyfrif dwbl' ymhith pobl a anfonodd ymatebion personol (99 allan o 130) ac y cafodd eu barn ei mynegi ar wahân hefyd gan sefydliadau y maent yn aelodau ohonynt. Mwy na thebyg bod eraill a ymatebodd ar eu rhan eu hunain, heb ddatgelu eu bod yn aelodau o gymdeithasau penodol, yn aelodau o'r fath sefydliadau hefyd. Er enghraifft, roedd gan un ymateb 'personol' gyfeiriad ebost BASC ac roedd ymwadiad BASC wrth droed y neges. Roedd rhai ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau drostynt eu 'hunain' yn dyfynnu cyfeiriadau at bolisïau'r BASC. Yn neilltuol, nid oedd bob amser yn hawdd gwybod a oedd ymatebwyr unigol o glybiau saethu adar dŵr yn cynrychioli eu clybiau neu nhw'u hunain, neu gyfuniad o'r ddau. Yn sicr, mae'n bosibl bod rhywfaint o 'gyfrif dwbl' wedi digwydd hefyd yn achos aelodau o sefydliadau bywyd gwyllt a ymatebodd drostynt eu hunain.

Roedd rhai sefydliadau, e.e. Undeb Amaethwyr Cymru (FUW), yn ei gwneud yn hollol glir yn eu llythyr esboniadol bod y farn yr oeddent yn ei chyflwyno wedi'i seilio ar ymgynghori mewnol ymhlith yr aelodau.

Nodwyd yn glir gan rai ymatebwyr oedd yn gweithio i sefydliadau ac yn anfon eu negeseuon ebost o system y sefydliad mai drostynt eu hunain yr oeddent yn siarad ac nad oeddent yn cyfleu barn y sefydliad na'u cyflogwyr.

**Cwestiwn 1. Ydych chi'n cytuno â'n casgliad ni bod angen rhagor o warchodaeth ar y boblogaeth o Wyddau Talcenwyn yr Ynys Las yng Nghymru? (Ydw, Ar y cyfan, Dim o gwbl). Pam? / Pam ddim? Beth yw'ch tystiolaeth i gefnogi'ch sylw/adau?**

O'r 29 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yn benodol, roedd y rhan fwyaf (72%; 21) yn cytuno â'r casgliad bod angen rhagor o warchodaeth, 14% (4) yn cytuno ar y cyfan, ac 14% (4) ddim yn cytuno o gwbl. Trwy gyfuno'r ymatebion "Ydw" ac "Ar y cyfan", roedd 86% yn cytuno â'r casgliad a nodwyd.

Roedd rhai ymatebwyr ar y naill ochr a'r llall yn teimlo bod angen ateb mwy pendant; '*ydw, yn llwyr*' neu, ar y llaw arall, '*dim o gwbl, rwy'n anghytuno'n llwyr'.*

**Themâu Cyffredin**

**Pwyntiau allweddol a wnaed gan ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r casgliad yn C1, ac o blaid cyflwyno gwaharddiad statudol:**

- Roedd cyrff anllywodraethol gwarchod natur a grwpiau bywyd gwyllt yn awyddus i gymeradwyo gwaith BASC a chanmol ymroddiad clybiau unigol ym maes saethu adar dŵr yng Nghymru am gyflwyno a gweithredu'r moratoriwm gwirfoddol presennol ar saethu Gwyddau Talcenwyn yr Ynys Las yn aber afon Dyfi a rhai rhannau o'r gogledd. Roeddent yn cydnabod bod y moratoriwm yn ymddangos yn fuddiol, ei fod wedi chwarae rhan gadarnhaol a'i fod yn enghraifft dda o gydweithio llwyddiannus. Nodwyd bod '*y moratoriwm gwirfoddol yn ddi-os wedi chwarae rhan yn gwarchod yr aderyn yng Nghymru*'.

- Fodd bynnag, honnai rhai ymatebwyr fod tystiolaeth i awgrymu, er gwaetha'r moratoriwm gwirfoddol, bod ychydig o Wyddau Talcenwyn yr Ynys Las yn dal i gael eu saethu yng Nghymru, ar Ynys Môn yn bennaf (adar o boblogaeth Dyfi wrth fudo, efallai) a bod hyn yn dangos nad oedd y gwaharddiad gwirfoddol yn llwyddo i roi gwarchodaeth lawn. Dywedodd un grŵp astudio adar bod 'tystiolaeth bagiau' o adar a saethwyd yn dangos bod Gwyddau Talcenwyn yr Ynys Las yn dal i gael eu saethu y tu allan i'r parth 'dim saethu' gwirfoddol mewn mannau eraill yng Nghymru. Honnwyd efallai mai adar a saethwyd oedd i gyfrif am y gostyngiad sylweddol yn nifer Gwyddau Talcenwyn yr Ynys Las yng Nghymru. Dywedodd eraill nad oedd modd gweithredu'r moratoriwm gwirfoddol ac mai dim ond aelodau o gymdeithasau saethu a chlybiau saethu adar dŵr oedd yn cymryd rhan ynddo.

- Roedd sawl ymateb gwyddonol gan grwpiau adareg yn amlinellu'r achos gwyddonol dros waharddiad. Cyfeiriwyd at astudiaeth a wnaed yn Wexford Slobs yn Iwerddon a dod i'r casgliad o'i ganfyddiadau (i) bod tystiolaeth wyddonol eglur yn dangos na ellir hela mewn ffordd gynaliadwy, (ii) bod achos gwyddonol cryf iawn bod hela Gwyddau Talcenwyn yr Ynys Las ar diroedd gaeafu yn ychwanegu at farwolaethau arferol, a (iii) bod ymchwil Wexford Slobs yn dangos nad oedd y gwyddau a saethwyd yn rhai a fyddai wedi marw'n fuan o achosion eraill beth bynnag, ond bod pob gŵydd a saethwyd yn ychwanegol at y marwolaethau o achosion eraill. Prawf o hyn yw bod y gostyngiad blynyddol mawr yn y boblogaeth ar ddechrau'r 2000au wedi'i atal i raddau helaeth pan roddwyd y gorau i hela yng Ngwlad yr Iâ yn 2006.

- Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr mai ychydig o Wyddau Talcenwyn yr Ynys Las sydd yng Nghymru a bod yr aderyn yn wynebu dirywiad difrifol ledled Cymru a'r Deyrnas Unedig. Soniwyd am ei statws cadwraeth uchel a phwysleisiwyd y gallai lladd rhagor trwy saethu fod yn cyfrannu at y gostyngiad yn y boblogaeth yng ngoleuni'r ffaith ei bod yn lleihau a bod y boblogaeth fyd-eang "mewn perygl". Soniwyd bod gan Wyddau Talcenwyn yr Ynys Las statws 'Mewn Perygl' IUCN ar y rhestr goch fyd-eang a'u bod ar Atodiad 1 o Gyfarwyddeb yr UE ar Warchod Adar Gwyllt.

- Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at y ffaith fod Gwyddau Talcenwyn yr Ynys Las yn cael eu gwarchod gan ddeddfwriaeth llywodraethau'r gwahanol wledydd y maent yn byw ynddynt ac eithrio Cymru a Lloegr, sef yr unig ddwy wlad lle ceir poblogaethau ohonynt ac y mae eu hela'n dal yn gyfreithlon. Dywedodd un ei bod yn groes i'r graen ei bod yn dal yn gyfreithlon i'w saethu yng Nghymru a phwysleisiodd fod yr achos cyfreithiol dros atal eu hela'n llwyr er mwyn gwarchod y boblogaeth [o Wyddau Talcenwyn yr Ynys Las] yn aruthrol. Dywedodd un cymdeithas adareg mai Cymru yw'r unig ardal ar lwybr hedfan Gwyddau Talcenwyn yr Ynys Las lle nad yw'r rhywogaeth yn cael gwarchodaeth gyfreithiol.

- Cyfeiriodd llawer o'r ymatebwyr at rwymedigaethau cyfreithiol Cymru a'r Deyrnas Unedig o ran Gwyddau Talcenwyn yr Ynys Las, ar lefel ddomestig a rhyngwladol, yn enwedig o dan a.42 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (NERC) (2006) ac fel un o rywogaethau blaenoriaeth UKBAP. Un o'r camau allweddol oedd tynnu Gwyddau Talcenwyn oddi ar Atodlen 2 rhan 1 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd), a thynnu sylw at anghysonderau ac anomaleddau cyfreithiol, e.e. bod yr aderyn eisoes yn cael ei warchod yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, a bod lleihau achosion ychwanegol marwolaeth (a sicrhawyd yn benodol, yn rhannol, gan warchodaeth gyfreithiol lawn) yn flaenoriaeth yng nghynllun gweithredu rhyngwladol Cytundeb Adar Dŵr Affrica-Ewrasia (AEWA) a fabwysiadwyd ym mis Mai 2012. Ymhlith y pwyntiau eraill a godwyd gan ymatebwyr a soniodd am faterion cyfreithiol roedd honiadau (i) y byddai gwaharddiad yn sicrhau bod Cymru'n cyflawni ei dyletswydd o dan gytuniad AEWA a (ii) bod angen cytundeb gan lywodraethau y DU, Iwerddon, Gwlad yr Iâ a'r Ynys Las, o dan Gynllun Gweithredu Rhyngwladol Poblogaethau Gwyddau Talcenwyn yr Ynys Las, i gael gwared â phob achos marwolaeth y mae modd ei osgoi. Dywedodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) bod angen gwaharddiad statudol er mwyn i Gymru gydymffurfio â chytuniad AEWA.

- Dywedodd CCGC hefyd bod Gwyddau Talcenwyn yr Ynys Las yn un o'r nodweddion sy'n gwneud ardal aber afon Dyfi'n gymwys i fod yn Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) o dan Gyfarwyddeb yr UE ar Warchod Adar

Gwyllt (1979). Mae cynllun rheoli'r AGA yn dweud ei bod yn rhaid atal saethu er mwyn bodloni amcanion rheoli'r safle ac y byddai gwarchodaeth statudol yn '*ddymunol iawn*'.

- Oherwydd cwmpas daearyddol cyfyng y moratoriwm gwirfoddol presennol, dywedodd llawer o'r ymatebwyr y byddai gwaharddiad statudol yn cynnig gwarchodaeth ehangach mewn ardaloedd heblaw aber afon Dyfi, e.e. ar dir amaethyddol a drosto, ac y byddai gwarchodaeth lwyr yn helpu i gynnal cwmpas byd-eang bychan y boblogaeth.

**Pwyntiau allweddol a wnaed gan ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r casgliad yn C1, ac nad oeddent o blaid cyflwyno gwaharddiad statudol:**

- Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eu bod yn cefnogi effeithiolrwydd a llwyddiant y gwaharddiad gwirfoddol cyfredol ar aber afon Dyfi. Dywedwyd bod hwn yn ei le ers y 1970au, ei fod wedi sicrhau gwarchodaeth a bod pobl wedi cadw ato. Soniodd un ymatebydd fod BASC wedi sicrhau gwarchodaeth bellach yn ddiweddar (2012), o dan foratoriwm gwirfoddol ychwanegol y cytunwyd arno gan glybiau saethu adar dŵr ledled gogledd a gorllewin Cymru. Dywedodd rhai ymatebwyr (i) na fyddai cyflwyno gwaharddiad statudol yn helpu i warchod Gwyddau Talcenwyn yr Ynys Las, (ii) y byddai'r gwaharddiad yn rhoi'r 'syniad anghywir' i'r bobl hyn a (iii) y byddai'n ergyd i'r berthynas dda rhwng y gwahanol bartïon.
- Ar fater effeithiolrwydd y gwaharddiad gwirfoddol, dywedodd clybiau hela adar dŵr nad oedd tystiolaeth nad oedd y gwaharddiad gwirfoddol yn gweithio a phwysleisiodd rhai clybiau na fu achos na honiad o saethu Gŵydd Dalcenwyn yr Ynys Las yn aber afon Dyfi yn y 40 mlynedd er cyflwyno'r moratoriwm. Y dystiolaeth dros hyn oedd data cyfrifiad misol o adar dŵr yn dangos nad oedd Gwyddau Talcenwyn yr Ynys Las wedi'u saethu. I'r gwrthwyneb, soniodd un ymatebydd fod cytundeb AEWA wedi cadarnhau ei bod yn debygol bod y gwaharddiad wedi llwyddo i gadw haid aber afon Dyfi rhag darfod amdani. Dywedwyd bod effeithiolrwydd honedig y moratoriwm yn un o'r prif ddadleuon yn erbyn yr angen am ddeddfwriaeth statudol, a dadleuodd llawer o ymatebwyr nad oedd angen deddfwriaeth, felly, gan na fyddai'n ddim ond gwastraff amser ac adnoddau Llywodraeth Cymru ac yn golygu costau ychwanegol i'w gorfodi a'i phlismona.

- Roedd helwyr adar dŵr yn cydnabod bod poblogaeth Gwyddau Talcenwyn yr Ynys Las yn dirywio yng Nghymru ond yn pwysleisio nad oedd tystiolaeth bod y math Ewrasiaidd/Ewropeaidd o dan fygythiad gan fod poblogaeth o filiynau ohonynt. Roeddent hefyd yn pwysleisio bod angen gwell dealltwriaeth o lawer o'r holl ffactorau amgylcheddol eraill a allai amharu ar niferoedd Gwyddau Talcenwyn yr Ynys Las. Y rheswm a roddwyd amlaf dros y gostyngiad yn niferoedd Gwyddau Talcenwyn yr Ynys Las oedd bod adar yn aros mewn lleoedd eraill cyn cyrraedd tiroedd gaeafu'r Deyrnas Unedig oherwydd newid yn yr hinsawdd. Galwodd rhai ymatebwyr am ragor o amser i asesu

effeithiolrwydd moratoriwm gwirfoddol Dyfi gan awgrymu, efallai, bod peth ansicrwydd am ei effaith hyd yma.

- Dywedodd nifer o ymatebwyr mai'r ffordd symlaf o warchod Gwyddau Talcenwyn yr Ynys Las fyddai ehangu'r gwaharddiad gwirfoddol presennol i gynnwys Cymru gyfan. Roedd llawer mwy o gefnogath i'r egwyddor o warchodaeth wirfoddol nag i warchodaeth statudol.

- Roedd nifer o ymatebwyr yn amheus o'r dystiolaeth wyddonol a honnai bod saethu wedi cyfrannu at y gostyngiad yn nifer Gwyddau Talcenwyn yr Ynys Las yng Nghymru. Dywedent bod y niferoedd wedi dal i ostwng yn yr Alban a Gogledd Iwerddon er bod gwarchodaeth statudol wedi'i chyflwyno ac roeddent yn honni bod tystiolaeth wyddonol glir na chafodd saethu unrhyw effaith ar y poblogaethau. Honnodd rhai nad o ganlyniad i saethu y bu'r gostyngiad yn nifer y gwyddau yn aber afon Dyfi ac na fyddai gwahardd saethu'n cael effaith ar maint y boblogaeth.

- Gan fod y moratoriwm gwirfoddol presennol yn effeithiol, meddai un ymatebydd, nid oedd y bwriad i ddeddfu yn gymesur â'r bygythiad. Holodd, '*Pam y mae angen gwahardd rhywbeth nad yw'n digwydd?*'

Gwnaed llawer o'r pwyntiau hyn hefyd gan ymatebwyr na roddodd atebion uniongyrchol i gwestiynau'r ymgynghoriad.

**Pwyntiau Eraill a Wnaed**

Soniodd ychydig o ymatebwyr am y profiad a gawsant o heidiau o wyddau'n difrodi cynnyrch amaethyddol, yn enwedig wrth fwyta cnydau oedd newydd eu hau. Awgrymodd ymatebydd arall efallai bod rhai adar yn cael eu saethu'n anfwriadol, neu mewn anwybodaeth, gan ffermwyr wrth geisio gwarchod eu cnydau.

**Cwestiwn 2: Ydych chi'n cefnogi'r bwriad i wahardd saethu Gwyddau Talcenwyn yng Nghymru trwy gydol y flwyddyn? (Ydw, Ar y cyfan, Dim o gwbl). Pam? / Pam ddim? Beth yw'ch tystiolaeth i gefnogi'ch sylw/adau?**

O'r 29 ymatebydd a atebodd y cwestiwn yn benodol, roedd y rhan fwyaf (72%; 21) yn cytuno â'r cynnig i wahardd saethu Gwyddau Talcenwyn yr Ynys Las trwy gydol y flwyddyn a 28% (8) yn anghytuno.

Roedd yr atebion i gwestiwn 2 wedi'u pegynu mwy na'r atebion i gwestiwn 1, gyda neb yn dweud 'Ar y cyfan', yn wahanol i gwestiwn 1. Roedd pedwar ymatebydd wedi dewis 'Ar y cyfan' yn ateb i gwestiwn 1 ond atebodd pob un ohonynt 'Nac ydw' neu ddewis 'Dim o gwbl' yn ateb i gwestiwn 2.

**Themâu Cyffredin**

**Pwyntiau allweddol a wnaed gan ymatebwyr o blaid y cynnig i wahardd saethu Gwyddau Talcenwyn yr Ynys Las yng Nghymru trwy gydol y flwyddyn:**

- Un thema oedd yn codi dro ar ôl tro oedd anhawster gwahaniaethu rhwng y ddau fath o Wyddau Talcenwyn wrth edrych arnynt yn hedfan gan ei fod mor debyg i'w gilydd. Y ffordd sicraf o wahaniaethu rhyngddynt yw lliw'r big – oren yw lliw pig y gwyddau Ewrasiaidd ac mae gan wyddau'r Ynys Las big binc. Pwysleisiodd rhai ymatebwyr ei bod yn gwneud synnwyr i wahardd saethu'r ddau fath o Ŵydd Dalcenwyn pe na bai ond am y rheswm hwn, h.y. oherwydd y perygl o gamgymryd rhyngddynt. Dywedodd CCGC ei bod yn '*anodd os nad yn amhosibl gwahaniaethu rhwng y ddau fath wrth iddynt hedfan*'. Mae amrywiaeth yn lliw'r big yn broblem gydnabyddedig i adarwyr sy'n ceisio adnabod Gwyddau Talcenwyn yr Ynys Las mewn heidiau.

- Nodwyd sawl gwaith bod y risg y gellid saethu Gwyddau Talcenwyn yr Ynys Las yn ddamweiniol yn arbennig o bwysig gan fod y boblogaeth mor fach.

- Ar lefel ymarferol, honnwyd ei bod yn anodd iawn i saethwyr wahaniaethu rhwng y ddau fath o Ŵydd Dalcenwyn yn y maes am mai ychydig iawn o amser sydd ganddynt i wneud penderfyniad (dim ond eiliadau, yn aml) a'i bod yn anodd gweld mewn tywydd drwg a rhwng dau olau wrth iddi wawrio a thywyllu, sef yr adegau pryd y byddant yn hela. Felly, yn aml, mae'n rhaid i saethwyr wneud eu penderfyniad yn sydyn pan welant aderyn. Honnodd llawer o ymatebwyr nad oedd modd gwahaniaethu rhwng y ddau fath o ŵydd nac, yn wir, rhwng unrhyw fath o wyddau llwyd, mewn cyn lleied o amser. Dywedodd un grŵp astudio gwyddau bod modd gwahaniaethu rhwng y ddau fath mewn golau da ond ei bod yn debygol iawn na ellid gwahaniaethu rhyngddynt yn yr awyr ac yn arbennig rhwng dau olau yn y bore bach neu gyda'r nos.

- Dywedodd llawer o ymatebwyr y byddai gwarchod pob Gŵydd Dalcenwyn golygu na fyddai perygl lladd Gŵydd Dalcenwyn yr Ynys Las yn ddamweiniol wrth ddrysu rhwng y ddau fath a bod y cam hwn wedi'i gymryd yn llwyddiannus yn yr Alban.

- O ran gwahardd saethu'r ddau fath o Ŵydd Dalcenwyn rhag ofn i bobl ddrysu rhyngddynt, nodwyd y byddau tynnu dim ond Gwyddau Talcenwyn yr Ynys Las o'r rhestr o adar y caniateir eu saethu yn golygu y gellid cosbi saethwyr o dan y gyfraith am beidio â gwahaniaethu rhwng y ddau fath. Felly, roedd achos cryf dros wahardd saethu Gwyddau Talcenwyn yn gyffredinol a byddai hynny'n gam ymarferol i'w gymryd. Nodwyd bod cynsail wedi'i osod yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

**Pwyntiau allweddol a wnaed gan ymatebwyr yn erbyn y bwriad i wahardd saethu Gwyddau Talcenwyn yr Ynys Las yng Nghymru trwy gydol y flwyddyn:**

Roedd llawer o'r pwyntiau a'r dadleuon a godwyd yn ailadrodd neu'n gorgyffwrdd â'r rhai a gafwyd mewn ymateb i gwestiwn 1.

- O ran y posibilrwydd o gamgymryd rhwng y ddau fath, roedd llawer o glybiau hela adar dŵr ac unigolion yn honni nad oedd tystiolaeth bod pobl yn drysu rhwng Gwyddau Talcenwyn Ewrasiaidd/Ewropeaidd a Gwyddau Talcenwyn yr Ynys Las ac y byddai unrhyw berygl o gamgymryd yn '*fach iawn neu'n ddim*'.
- Yn ogystal, gan fod math Ewrasia yn aros yn Lloegr yn bennaf, honnwyd hefyd na fyddai perygl o ddrysu rhwng y ddau fath, h.y. nid yw'r broblem yn codi. Soniodd rhai ymatebwyr nad yw Gwyddau Talcenwyn Ewropeaidd yn gaeafu ar aber afon Dyfi.
- Honnwyd dro ar ôl tro nad oedd saethu'n amharu ar boblogaethau o Wyddau Talcenwyn yr Ynys Las a bod y gostyngiad yn eu nifer yn ymwneud â ffactorau cynefinoedd a digwyddiadau yn yr Ynys Las a Gwlad yr Iâ yn hytrach na'r ffaith eu bod yn cael eu lladd wrth saethu.
- Yn ôl sawl un, unwaith yr oedd rhywogaeth yn cael ei thynnu oddi ar y rhestr o anifeiliaid y caniateir eu saethu, roedd hanes yn dangos na fyddai byth yn cael ei rhoi yn ôl; *traffig un ffordd.*
- Ailadroddwyd nad oedd tystiolaeth bod Gwyddau Talcenwyn yr Ynys Las wedi'u saethu yng Nghymru a bod y gwaharddiad gwirfoddol yn gweithio'n effeithiol i'w gwarchod.
- Soniodd llawer o ymatebwyr nad oedd Gwyddau Talcenwyn Ewroasia/Ewrop mewn perygl yn fyd-eang a bod iddynt '*statws poblogaeth hollol iach'*. Cyfeiriwyd at amcangyfrifon poblogaeth amrywiol o 1 miliwn+ o adar o leiaf, gan dynnu sylw at y boblogaeth ryngwladol gref a'i statws cadwraeth ffafriol ar gyfandir Ewrop.

**Pwyntiau Eraill a Wnaed**

Dywedodd un ymatebydd ei fod yn erbyn cyflwyno gwaharddiadau rheoleiddiol er mwyn gwarchod democratiaeth dinasyddion rhydd.

**Cwestiwn 3: A oes camau eraill, gwahanol, y gellid eu cymryd yn lle hynny i warchod poblogaeth Gwyddau Talcenwyn yr Ynys Las yng Nghymru gyda'r un eglurdeb a sicrwydd ag y nodir yng nghynnig Llywodraeth Cymru?**

**Beth ydynt? Beth yw'ch tystiolaeth i gefnogi'ch sylw/adau?**

O’r 28 ymatebydd a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol, roedd y rhan fwyaf (68%; 19) yn credu nad oedd camau eraill i’w cael, ac roedd 32% (9) yn credu bod camau eraill y gellid eu cymryd. Yn hytrach nag ateb y cwestiwn yn uniongyrchol, cafwyd awgrymiadau gan un ymatebydd. O’r rhai a atebodd ‘Nac oes’, fe ychwanegwyd y cymal ‘hyd y gwyddom’ gan rai o’r ymatebwyr.

**Themâu Cyffredin**

**Pwyntiau allweddol a wnaed gan ymatebwyr a oedd o’r farn nad oedd camau eraill, gwahanol, y gellid eu cymryd:**

- Dywedodd nifer o ymatebwyr y byddai’r mesur gwirfoddol presennol ac unrhyw fesur tebyg a gâi ei fabwysiadu ar gyfer ardal ddaearyddol ehangach yn berthnasol i aelodau cymdeithasau saethu yn unig ac felly bod angen deddfwriaeth statudol er mwyn sicrhau gwarchodaeth lwyr.

- O safbwynt Cymru, roedd yr ymatebwyr yn cydnabod ei bod yn amhosibl iddynt hwy newid y ffactorau a oedd yn golygu nad oedd Gwyddau Talcenwyn yr Ynys Las yn atgenhedlu’n llwyddiannus yn ardaloedd bridio’r Ynys Las.

- O safbwynt biolegol, nodwyd bod hyd yn oed newidiadau bach yn y cyfraddau goroesi yn cael effaith fawr yng nghyfraddau newid y boblogaeth gyffredinol, ac felly gallai newidiadau bach yn nifer y rhai sy’n marw gael effaith fawr ar faint cyffredinol poblogaeth y rhywogaeth hirhoedlog hon.

- Roedd consenswS mai dim ond gwaharddiad statudol fyddai’n rhoi’r warchodaeth orau a mwyaf cyflawn ac mai dyma’r unig ffordd ymarferol o sicrhau gwarchodaeth glir a sicr – a nodwyd mai ‘glir a sicr’ oedd y geiriau pwysig.

**Pwyntiau allweddol a wnaed gan ymatebwyr a oedd o’r farn bod camau eraill, gwahanol, y gellid eu cymryd:**

- Roedd nifer yn galw am ehangu’r moratoriwm gwirfoddol i gynnwys Cymru gyfan ac yn galw ar i Lywodraeth Cymru gydweithio â chlybiau hela adar dŵr yng Nghymru i sicrhau effeithiolrwydd y moratoriwm presennol ac unrhyw rai ychwanegool a geir yn y dyfodol.

- Awgrymodd un ymatebydd y gellid cychwyn rhaglen fridio mewn caethiwed er mwyn canfod pam yr oedd cyfradd atgenhedlu Gwyddau Talcenwyn yr Ynys Las yn isel, gan nodi bod y gyntaf wedi’i chynnal gan Dyfi Wildfowlers yn y 1970au.

- Roedd rhai ymatebwyr o’r farn y dylid rhoi cymorthdaliadau a/neu iawndal i ffermwyr am y difrod a wneir i gnydau amaethyddol gan wyddau yn gyffredinol. Dywedodd un fod caniatáu saethu yn annog y gwyddau i gadw at

y gwarchodfeydd lle cânt lonydd, gan effeithio ar eu cadwraeth, ac y byddai hyn yn gwneud ffermwyr yn llai tebygol o ddymuno'u saethu.

- Dywedodd llawer o ymatebwyr bod angen talu rhagor o sylw i ansawdd cynefinoedd a rheoli cynefinoedd Gwyddau Talcenwyn yr Ynys Las sy'n gaeafu yn ardal dyffryn Dyfi, gan nodi effeithiau posibl cystadleuaeth wrth anifeiliaid fferm sy'n cael eu magu'n ddwys ar lystyfiant dolydd a morfeydd heli yn yr aber. Dywedodd un ymatebydd nad oedd '*llawer o le ar ôl i Wyddau Talcenwyn yr Ynys Las bori*' gan fod cynifer o ddefaid yn pori yn yr ardal. Awgrymwyd y dylid penderfynu ar gynlluniau amaeth-amgylcheddol wedi'u targedu'n benodol at Wyddau Talcenwyn yr Ynys Las er mwyn lleihau lefelau stocio a sicrhau rhagor o ardaloedd pori ar gyfer y gwyddau hyn, ac y dylid cynnal arolwg o'r lefelau pori cyfredol.

- Nodwyd dro ar ôl tro ei bod yn debygol bod Gwyddau Canada yn gystadleuwyr biolegol, ym Mhrydain a thramor, a bod angen strategaeth i'w rheoli yn ardal Dyfi ac yn yr Ynys Las gyda'r nod o ostwng lefelau'r boblogaeth. Awgrymodd un ymatebydd y gellid plannu cnydau aberthol i ddenu Gwyddau Canada o ardaloedd pori Gwyddau Talcenwyn yr Ynys Las yn aber afon Dyfi. Holodd un arall a oedd cynlluniau i ystyried difa Gwyddau Canada.

- Roedd galwadau am lawer rhagor o waith monitro a gwaith ymchwil sylfaenol er mwyn canfod angenion rheoli yn AGA Aber Afon Dyfi, yn enwedig oherwydd cystadleuaeth rhyngrywogaethol gyda Gwyddau Canada ac, efallai, rhywogaethau eraill o wyddau.

- Unwaith eto, roedd rhai ymatebwyr o'r farn nad oedd y moratoriwm gwirfoddol wedi cael digon o amser i brofi ei effeithiolrwydd.

- Roedd ymatebwyr o blaid ac yn erbyn gwaharddiad yn galw ar i'r holl bartneriaid a rhanddeiliaid barhau i gydweithio a chynyddu'r cydweithio.

**Materion Eraill a Godwyd yn yr Ymatebion**

Roedd nifer o ymatebwyr annibynnol o Ynysoedd Heledd (Hebrides) yn cynnwys De Uist ac Islay, ac Ynys Bute, oll o blaid gwaharddiad statudol, gan ddweud eu bod wedi gweld gostyngiad yn y boblogaeth o Wyddau Talcenwyn yr Ynys Las a oedd yn cael ei monitro'n wyddonol yng ngorllewin yr Alban a bod y niferoedd yn dal i ddirywio.

O ystyried pam yr oedd Gwyddau Talcenwyn yr Ynys Las wedi rhoi'r gorau i aeafu ar Gors Caron, roedd y rhesymau a awgrymwyd yn cynnwys oerni difrifol gaeaf 1963, dyfodiad awyrennau milwrol yn hedfan yn isel ac yn swnllyd (roedd dyfodiad y rhain

yn cyfateb i ddiflaniad yr adar), a newidiadau mewn cynefinoedd, fel draenio ac adfer tir, ar y gors ac o'i chwmpas yn y 1950au a'r 1960au.

Un awgrym penodol a gynigiwyd ar gyfer gwaith ymchwil oedd cynnal arolwg o Ynys Môn i ganfod o ble y deuai Gwyddau Talcenwyn yr Ynys Las a saethwyd ac i geisio canfod faint o'r gwyddau, os o gwbl, oedd yn gaeafu ar yr ynys ac ymhle.

Cafwyd awgrymiadau bod ffactorau eraill o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig wedi achosi gostyngiad yn niferoedd yr aderyn e.e. bridio llai cynhyrchiol ar safleoedd nythu yn yr Ynys Las (diffyg recriwtio), problemau â chynefinoedd (ansawdd, colli ac argaeledd) yn yr Ynys Las, y ffaith ei bod yn hwyr yn dadmer mewn ardaloedd nythu, newid hinsawdd mewn ardaloedd bridio ac yn gyffredinol yn golygu bod y gwyddau'n aros mewn llefydd eraill cyn cyrraedd Prydain gan fod yr amodau'n dod yn fwy ffafriol ymhellach i'r gogledd, bod yr adar yn hŷn yn bridio am y tro cyntaf, diffyg ffrwythlondeb, a marwolaeth adar ifanc a rhai yn eu llawn dwf.

**Y Camau Nesaf**

Bydd y Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Yna, bydd yn penderfynu a yw am gyflwyno gwaharddiad statudol ar saethu Gwyddau Talcenwyn yng Nghymru trwy gydol y flwyddyn gan ddechrau ym mis Medi 2013 (diwedd y 'tymor caeedig' presennol).

**ATODIAD A - YMATEBWYR**

**Sefydliadau**

Animal Aid (AA)

Blackwater Wildfowlers Association (BWA)

Britannia Wildfowlers (BW)

British Association for Shooting & Conservation (BASC)

Common Decency (CD)

Y Gynghrair Cefn Gwlad (Cymru) (CAW)

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)

Dee Wildfowlers & Wetlands Management Club (DWWMC)

Dyfi, Mawddach & District Wildfowlers Association (DMDWA)

Undeb Amaethwyr Cymru (UAC)

Federation of Associations for Hunting & Conservation of the EU (FACE)

Game & Wildlife Conservation Trust (GWCT)

Greenland White-fronted Goose Study (GWFGS)

Isle of Anglesey Wildfowling Club (IOAWC)

Lough Foyle Wildfowlers Association (LFWA)

Pembrokeshire Wildfowlers' Association (PWA)

Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (Cymru) (RSPB Cymru)

Cymdeithas Frenhinol Atal Creulondeb i Anifeiliaid (Cymru) (RSPCA)

Parc Cenedlaethol Eryri

Wells & District Wildfowlers (WDW)

Wentloog Wildfowling & Conservation Association (WWCA)

Cymdeithas Adareg Cymru (WOS)

Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir (WWT)

Ymddiriedolaethau Natur Cymru (WTW)

Cymdeithas Saethu Adar a Chadwraeth Y Foryd

## Unigolion

102 o unigolion preifat a nodwyd fel 'hunan'